Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (CAERSŴS I LANTWYMYN, POWYS) (CYFYNGIADAU A GWAHARDDIAD TRAFFIG DROS DRO) 201-

MAE GWEINIDOGION CYMRU yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, sy'n angenrheidiol er mwyn gwneud gwaith cynnal a chadw ar gefnffordd yr A470 rhwng Caersŵs a Glantwymyn, Powys.

Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad yn weithredol yn ysbeidiol o 23 Medi 2013 hyd 29 Tachwedd 2013 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Disgwylir mai dim ond rhwng 08:00 o'r gloch a 18:00 o'r gloch y bydd y gwaith yn digwydd. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am y cyfyngiadau a'r gwaharddiad yn cael ei arddangos tua 2 wythnos cyn i'r gwaith ddechrau.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwneud y canlynol dros dro:

i. Gosod terfyn cyflymder o 40 mya, 30 mya neu 10 mya rhwng cyffordd yr A470/A489 ym Moat Lane, Caersŵs a chyffordd y gylchfan â'r A489 yng Nglantwymyn. Dim ond pan fydd gwaith confoi yn digwydd y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya ond yn gymwys.

ii. Gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag goddiweddyd pan fydd gwaith confoi yn digwydd.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol oherwydd amgylchiadau nad oedd modd eu rhag-weld.

M D BURNELL
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

THE A470 TRUNK ROAD (CAERSWS TO CEMMAES ROAD, POWYS) (TEMPORARY TRAFFIC RESTRICTIONS AND PROHIBITION) ORDER 201-

THE WELSH MINISTERS propose to make an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake maintenance works on the A470 trunk road between Caersws and Cemmaes Road, Powys.

It is expected that the restrictions and prohibition will operate intermittently from 23 September 2013 until 29 November 2013 or until the temporary traffic signs are permanently removed. The works are only expected to take place between 08:00 hours and 18:00 hours. Advance notice of the restrictions and prohibition will be displayed approximately 2 weeks before the start of works.

The effect of the proposed Order will be to temporarily:

i. Impose a 40 mph, 30 mph or 10 mph speed limit between the A470/A489 junction at Moat Lane, Caersws and the roundabout junction with the A489 at Cemmaes Road. The 10 mph speed limit will only apply during convoy working.

ii. Prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from overtaking whilst convoy working is in force.

Although the proposed Order is only expected to operate during the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 12 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential work is required due to unforeseen circumstances.

M D BURNELL
Transport, Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE